Y Gronfa Arloesi Cymdeithasol

Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn darparu ystod eang o wasanaethau i fusnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes yng Nghaerdydd ac i ddarpar fuddsoddwyr mewnol.

Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi lansio'r Gronfa Arloesi Cymdeithasol i gynorthwyo mentrau cymdeithasol newydd a mentrau cymdeithasol sy'n ehangu yng Nghaerdydd.

Mae grantiau ar gael ar gyfer projectau gwariant cyfalaf a fydd yn diogelu a/neu'n creu swyddi yn y ddinas.

Mae'r gronfa ar gael fel a ganlyn:

Grant Dechrau Busnes:

Mae grantiau o hyd at £5,000 ar gael. Mae cymhwysedd yn dibynnu ar y meini prawf canlynol:

- Cyn dechrau busnes, busnes newy d neu fusnes sefy dledig
- Cyfeiriad busnes neu weithio gartref, dim ond os oes gennych y caniatâd priodol ar gyfer yr adeilad ac yn talu ardrethi
- Gwariant cyfalaf asedau sefydlog (peirianwaith / adnewyddu offer / dodrefnu)
- Cynllun busnes gyda rhagolygon ariannol
- Creu swyddi (o leiaf dair swydd dros gyfnod o dair blynedd)
- Rhaid i bob ymgeisydd fod yn gweithio gyda chynghorydd busnes priodol

Cyngor Cyfrinachol Am Ddim

Gellir cael cymorth a chyngor ar bob cam o'r broses fuddsoddi i gynorthwyo twf economaidd yng Nghaerdydd. Gellir cyfeirio pobl at ffynonellau cyngor arbenigol hefyd.

Rhoddir cymorth ariannol yn ôl disgresiwn, ac ym mhob achos, bydd angen cais wedi'i ddogfennu'n llawn sy'n cynnwys trafodaethau â swyddog o'r Tîm Datblygu Economaidd.

Datblygu Economaidd
Cyngor Dinas Caerdydd, Y Cwrt, Neuadd y Sir,
Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Ffôn: (029) 20788498
E-bost: cyngorbusnes@caerdy gov uk
www.caerdydd.gov.uk

CAERDYDD
LLEOLI | BUDDSODD | LLWYDDO | MWYNHAU

CARDIFF
CAERDYDD